YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

"DOS I'TH YSTAFELL."
NODIADAU'R GOLYGYDD.
IESU HANES A'R BEIRNIAID DIWEDDAR.
DANIEL OWEN [1836—1909].
ARHOLIAD YR YSGOL SUL, 1936.
PRIODASAU.
MARWGOFION.
NODIADAU'R EGLWYSI.



Cyf. XXXVI

Mehefin 1936

Rhif 6

YR YMOFYNNYDD.

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

MYNNWCH GOPI O LYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

SYDD YN AWR YN EI AIL ARGRAFFIAD

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys limrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

YR YMOFYNNYDD

. . CYLCHGRAWN MISOL . .
CYMDEITHAS UNDODAIDD DEHEUDIR CYMRU

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

CYFROL XXXVI. MEHEFIN, 1936. RHIF 6

"DOS I'TH YSTAFELL—."

Cadw dy galon yn dra di-esgeulus : canys allan o honi mae bywyd yn dyfod.—Diarhebion iv : 23.

* * *

OFNAF Dduw, ac yn nesaf at Dduw ofnaf yr hwn nad yw yn ofni Duw.—SAADI.

* * *

MAE enw da fel tân : o'i gynneu hawdd ei gadw yn fyw : ond os diffoddwch ef nid hawdd ei ail-gynneu.—BACON.

* * *

Y CWYMP sydd uwchlaw pob cwymp ydyw hwn, pan yr amheua dyn ei hun gyntaf.—COUNTESS DE GASPARIN.

* * *

DYLID barnu defnyddioldeb yr ysgolhaig wrth rif a gwerth y gwirioneddau ledaenwyd ganddo, a'r meddyliau ddeffrowyd ganddo.—COLERIDGE.

* * *

YR hyn gashewch mewn eraill, gofalwch gywiro ynnoch eich hunain.—SPRAT.

* * *

MAWR ydyw'r dyn fwynha ei lestri priddion fel pe baent lestri aur, ond nid llai ei faintioli ydyw'r dyn i'r hwn nid yw'r oll o'i lestri aur ond llestri priddion.—SENECA.

* * *

BETH bynnag yw hwnnw sydd yn meddwl, yn deall, yn ewyllysio ac yn gweithredu, mae yn nefol ac yn ddwyfol, ac am hynny o angenrheidrwydd yn anfarwol.—CICERO.

* * *

EGWYDDORION ac nid bidogau ddygodd oddiamgylch chwyldroadau mawr. Deuant i ben yn gyntaf yn y byd moesol, wedi hynny yn y byd materol.—MAZZINI.

* * *

O ARGLWYDD ein Duw, dyro i ni adnewyddiad ysbryd a gosod ein calonnau arnat ti dy hun, fel y byddo ein gwaith yn hyfrydwch ao nid yn faich. Dyro i ni i'th garu di gymaint fel y bydd ufuddhau yn felus. Na ad i ni i'th wasanaethu mewn ysbryd caethiwed ond gyda siriolded plant, a'n hyfrydwch ynot ti a'n llawenydd yn dy waith.—Amen.

"Liberal Christianity and Modern Criticism."

By Herbert McLachlan, M.A., D.D.
(*The Lindsey Press, 1936.*)

IESU HANES A'R BEIRNIAID DIWEDDAR.

Gan yr Athro M. B. Owen.

Ceir nifer o arwyddion brwdfrydedd ymhlith Cristnogion y ganrif gyntaf o'n cyfnod yn y Testament Newydd, megis y Pentecost a'r tafodau llesmair y sonia'r Apostol Paul am danynt. Gellir cynnig mwy nag un esboniad ar achos y brwdfrydedd hwn, ond rhaid cynnwys ymhob esboniad grediniaeth mewn rhyw obeithion ar y ffordd i'w sylweddoli a phrofiad o ryw rymoedd rhyfedd yn tarddu o'r grediniaeth hon. Ni ellir amau grym y grediniaeth, ond nid yw'n dilyn bod ei chynnwys yn ddilys. Ac anturio awgrymu beth oedd calon cred y cyfnod cynnar yn hanes ein crefydd, ni a ddywedem mai concwest ar angau ydoedd. Anfarwoldeb wedi ei egluro tuhwnt i ddadl sy'n atsain trwy'r Epistolau, Llyfr y Datguddiad a'r Actau ; ac Efengyl Ioan yn uwch nac unman. Gwyddom o ddarllen llenyddiaeth y byd o'r tuallan i gymdeithas y Cristnogion bore mai ofn angau a flinai galon dyn ddyfnaf a hiraf, o bosib am nad oedd yn medru credu'n rhyw gryf iawn mewn daioni dynol na dwyfol. O dan rym y gred fod angau wedi ei goncro a'r gobaith o gael byw byth mewn byd dibechod yng nghysgod y Duw sy'n gariad perffaith yn oes oesoedd, y ganed, ac y tyfodd y frawdoliaeth Gristnogol.

Tra parhaodd y gred yn ei grym parhaodd y brwdfrydedd, a digon i'w meithrin oedd apel at un ffaith ar lwyfan hanes ac adeiladu ar honno y gobeithion disglaer a'u cadarnhau yng ngolau ysgrythur hen a chysegredig, a'i ddilysrwydd a'i ysbrydoliaeth uwchlaw pob dadl. Gan hynny naturiol yw ceisio ffurfio syniad am gred a bywyd yr Eglwys yn y ganrif gyntaf yng ngolau'r llyfrau cyntaf gynyrchwyd ynddi, ac yn ôl pob tystiolaeth o'r cyfnod cynnar nid yr Efengylau oedd y rheiny. Ychydig iawn o ddylanwad yr Efengylau fel ffynhonellau hanes welir ar lenyddiaeth yr Eglwys hyd yn oed yn yr ail ganrif, canys dau bwnc amlwg y ganrif honno yw aml-dduwiaeth y pagan ac atgyfodiad oddiwrth y meirw. Condemnia y naill yn ddigyfaddawd a defnyddir pob medr meddyliol ac awgrymiadau o bob math o lenyddiaeth i gadarnhau y llall. Llyfr pwysicaf ysgrifenwyr yr Eglwys fel llys apel i dorri dadl yn y ddwy ganrif gyntaf oedd yr Hen Destament,

ac o hwnnw y codid y testunau i bregethu'r efengyl. Gan i'r Eglwys ymlwybro gyhyd heb Efengylau rhesymol gofyn pam yr ysgrifennwyd hwynt. Ceisio ateb y cwestiwn hwn o'r newydd wna Dibelius a'i ddisgyblion, ac ateb Dibelius, yntau, wna Dr. McLachlan yn y llyfryn hwn. Edrychwn ar y ddadl rhyngddynt.

I'r ysgolheigion gais ail-adeiladu defnyddiau gwasgaredig ac annhrefnus oes yr Apostolion yn gyfanwaith cyson dealladwy, megis Dibelius, pregethu cenadwri ac nid cofnodi hanes oedd prif waith yr apostolion a chenhadon cyntaf yr Eglwys.

Wrth draddodi'r genadwri gwneid defnydd o hanesion a thraddodiadau am Iesu i egluro agweddau arni a phriodolid iddo ddywediadau a damhegion cyson a safbwynt y genadwri, a haerir i'n Hefengylau dyfu allan o'r arfer hwn. Caniateir fod seiliau hanesyddol i gychwyniad y grefydd Gristnogol gan yr ysgol hon, a bod Iesu yn brif gychwynydd iddi, ond dadwisgir ef ei hunan o'r oll bron o'r dillad osodwyd am dano gan yr Efengylwyr, a blingir ei ddysgeidiaeth o'i chyfoeth dynol a moesol gan ei gwneud yn haen deneu undonnog o gyfeiriadau at y Byd a Ddaw. Baich y genadwri ar y cyntaf oedd y Byd a Ddaw, meddir ; a phan y dechreuwyd ofni mai oedi dod a wnai hwnnw, yna aed ati i gasglu dywediadau a damhegion a gedwid yn fyw ar lafar eglwys a ymwnai â'r ffordd i fyw yn y byd hwn, a haerir mai nid Iesu bia llawer o'r rhai a briodolir iddo yn yr Efengylau. Ni'n hamddifedir o gymaint o gynnwys yr Efengylau fel hanes gan Dibelius ag a wneir gan Drews ; ond distillir yr hanes nes gadael dim ond diferion prin at wasanaeth adeiladaeth ysbrydol inni, a theimlir gennym ein bod yn colli rhywbeth anhebgorol i'n crefydd wrth golli Iesu Efengyl Marc a dysgeidiaeth ddihafal y bregeth ar y mynydd. Y teimlad hwn esbonia ein dygnwch i gadw Iesu ar glawr hanes yn wyneb pob ymgais i'w wneud yn annaturiol fel dyn, neu i wadu iddo ddynoliaeth o gwbl, ac ni wnawn gam â'r awdur wrth awgrymu ei fod yntau yn ymgodymu a Dibelius yn y llyfryn hwn oddiar yr un cymhelliad.

Caniateir gwirionedd y gosodiad mai pregethu oedd bwysicaf yng ngolwg y cenhadon cyntaf, ac mai'r Byd a Ddaw oedd un agwedd bwysig ar eu cenadwri ; ond dadleuir fod y cenhadon hwythau yn fyw i werth cynhennid rhagoriaethau moesol ar wahan i'w gobeithion am y Byd a Ddaw, a bod Iesu yn berchen meddwl creadigol ym myd moes a chrefydd, a threiddgar ei welediad i diriogaeth cymhellion a dibenion ymddygiadau dynion. O ganlyniad ni chyfyngid y traddodiad am dano a'i ddysgeidiaeth yn yr Eglwys fore i linell y gobaith gwynfydedig, ys ei gelwir, sef dyfodiad buan y deyrnas oruwchnaturiol i'r byd hwn ; ond cedwid yn fyw ddywediadau a damhegion ar lafar Eglwys a ymwnai â'r ffordd i fyw yn deilwng o blant y Tad Nefol, ac â pherthynas y Tad â'i blant yn ogystal ; a cheir y ddwy linell hyn yn cyfarfod yn yr

Efengylau. A chaniatau bod Iesu yn dysgu am ddyfodiad buan y deyrnas nefol i'r byd nes rhoi pen ar ei hen ddull o ymlwybro ac ymdrybaeddu, fe roddodd hefyd fynegiant i egwyddorion byw wnai ddynion yn well i'w gilydd ac iddynt eu hunain o'u mabwysiadu, pe bae'r byd hwn yn para byth. A dyna mewn dull arall a ddywaid Dr. McLachlan. Cytunwn fod eisiau gwella'r ffordd o fyw ar y byd, er ei fwyn ei hun, rhag iddo yn ei drachwant orthrechu ac ymwallgofi hyd ddinistr ; a chred rhai ohonom mai Iesu yw'r unig un fedr ddangos y llwybr cywir i'w fendith arhosol iddo a'i ysbrydoli â'r dymer gydnaws i ddilyn y ffordd i'w ddaioni.

Beth ynte yw rhagolygon y ddadl y ceir cymaint dilysrwydd yn y traddodiad am Iesu fel athraw am y ffordd i fyw ag a honnir sydd yn y traddodiad am dano fel gweledydd neu apostol diwedd byd ?

Bydd darllenydd llyfryn Dr. McLachlan yn fwy abl i ateb y cwestiwn hwn ar ôl ei ddarllen na chynt ; canys ceir ymdriniaeth meistr ar ei faes ynddo.

Awgryma Dr. McLachlan ddau beth i'r meddwl, sef cymhlethedd y gorchwyl o benderfynu pa haenau yn yr Efengylau sydd hynaf, a gallu'r meddwl effro i benderfynu drosto'i hun y pethau sydd â gwahaniaeth ynddynt a dewis arweiniad y pethau anhebgorol i iechyd ysbryd a chydwybod. Ar y pwynt olaf hwn dywaid y Dr. bethau diddorol am y Crynwyr. Gellir ychwanegu bod i'r Crynwyr ragredegwyr ganrif cyn eu cychwyn yn radicaliaid diwygiad Luther a Zwingli, megis Hans Denck. Tybiwn y gellid cael ychydig hefyd mewn canrifoedd pellach yn ôl yn perthyn i'r un gorlan, megis y cyfrinwyr. Eto ar y cyfan peth cymharol ddiweddar yn yr Eglwys yw ymddiried dyn i'r farn ei hun ym myd crefydd, a'i cholled hi fu hynny. Ond gyda phwnc o henafiaeth cynnwys Efengylau Mathew, Marc a Luc, gesyd y Prifathro y peth yn glir fel yr oedd safle'r cwestiwn yn niwedd 1935. Erbyn hyn ceir damcaniaeth newydd ddiddorol arall ynglŷn â'r maes gan ysgolhaig o Ffrancwr, fel amrywiaeth ar yr Ellmynwyr diwyd.

Y syniad ddaliai'r twr cyn hyn oedd y bodolai dwy ffynhonell i gynnwys y tair Efengyl gyntaf, sef a oedd yn grynhodeb o ddysgeidiaeth Iesu, heb fawr o hanes ei fywyd a'i waith, na dim o'i gamdriniaeth a'i farw ; a'r llall yn gopi wnaed gan Luc cyn gwybod o bosib am y llall na chwaith am Marc.

Ceir cynnwys y ddwy ffynhonnell hyn ym Mathew a Luc, ond ceir hefyd Marc bron i gyd ym Mathew a Luc gyda'i gilydd. O adgynyrchu'r ddwy ffynhonnell yn eu purdeb ni a gaem y traddodiad hynaf am Iesu, meddir, ag eithro'r adlewyrchiad yn Epistolau yr apostol Paul o'r traddodiad apostolaidd, megis am y Swper.

Beth am Marc ? Mae tyst bore yn cydio Pedr ag Efengyl Marc, ac ar y cyfan mae awyrgylch y ganrif gyntaf yn nodweddu'r Efengyl

hon ; a hyn yw barn Dr. McLachlan. Ni wna'r Prifathro ddefnydd o'r " Ddwy Ffordd " yn niwedd Epistol Barnabas i gadarnhau ei gasgliad, ond gwnai hynny gryfhau'r farn fod y traddodiad am ddysgeidiaeth foesol Iesu mor fyw yn yr Eglwys a dim o'r elfennau eraill yn y traddodiad. Y ddamcaniaeth newydd yw mai'r Efengyl gyhoeddwyd gyntaf tua 140 o.c. gan Marcion, y llongwr-esgob ys ei gelwid, ac a gondemnid gan Tertiwlian ac Epiffanius fel Efengyl Luc wedi ei llarpio, oedd copi cyntaf Luc o'i Efengyl. Ni osodwyd Efengyl Marcion wrth ei gilydd eto, ond gellir ei chasglu'n dra helaeth o weithiau beirniaid Marcion.

Diamau y dilynir ar ôl y syniad newydd hwn gan ei nithio yn chwyrn cyn ei wrthod.

Efrydiaeth y methir a'i gadael yn llonydd yw dilysrwydd yr Efengylau am y rheswm fod ynddynt genadwri sy'n meithrin gobaith a phersonoliaeth sy'n siarad gydag awdurdod a theyrnasu ar ein hysbryd yn ddidrais er ein mawr fantais ; a diolchwn am gymorth ysgolor fel Dr. McLachlan i ffurfio barn, a chadarnhau barn, am werth arhosol yr Efengylau Synoptaidd.

Daniel Owen [1836—1890].

Anodd darlunio canrif a rhoi dyn yn ei gyfnod, ond credaf ei bod yn anos gyda'r bedwaredd ganrif ar bymtheg na'r un. Canrif ydyw nad ydym wedi'i deall na'i dehongli'n iawn eto. Y mae'n rhy agos atom, a hwyrach ein bod yn ei thrin â llaw gynhilach, neu a thuedd ynom i'w bychanu. Dywed Saunders Lewis yn ei Ragair i Geiriog,—" Canrif dra chymysg ydyw. Dysgwyd inni ei bod hi'n unplyg a syml, yn werinol, yn Biwritanaidd, yn Radicalaidd. . . . Dengys hanes Ceiriog mor amryfus yw'r syniad hwnnw ". Rhaid cofio hefyd mai cyfnod Ceiriog yw cyfnod Daniel Owen. Galwai Watts-Dunton y ganrif yn " Renasance of Wonder ". Yr oedd ynddi ddau ogwydd—gogwydd derbyn yn ddi-her y byd fel yr oedd, a'r gogwydd edrych ar bopeth trwy lygaid holi a rhyfeddu. . . .

O edrych yn fanwl dros lên Cymru am y cyfnod credaf mai y gogwydd i dderbyn heb herio nemor y sydd gryfaf yma o lawer.

Anodd dwyn dyn oddiar ei dylwyth, meddai hen air, ac yn y gwaelod anodd dwyn dyn oddiar ei gyfnod a'i dueddiadau. Y mae adnabod y cyfnod a'r ardal yn help i ddeall ac adnabod y dyn. Ni wn i nemor am Yr Wyddgrug na'r ardal na'r cymhellion. Nid amheuaf na anwyd dynion mawr yn y cyffiniau. Carwn i fod wedi ymweld â'r hen dre, a cherdded ei heolydd er cael cip ar fyd Daniel Owen. Ni bum ond mewn " siari " yno ar nawn o haf

heb hamdden i oedi nac amser i ddim ond prin cofio enw Daniel Owen. Y mae y wlad yn ddieithr i mi a chredaf y dylasai y neb a fyn ddehongli Daniel Owen wybod am y cyffroadau a'r pwerau ym mywyd bob dydd y bobl yr oedd ef yn un ohonynt. Gan na wn i ddim, nid oes amdani ond cerdded wrth ffydd gan ddyfalu, a chysuro fy hun bod llawer wedi cerdded fel finnau. Canolfan bywyd yr Wyddgrug fel trefydd bach cyffelyb oedd y capel, heb fod yno nemor o ymysgwyd na chais i dorri hualau caethiwed y meddwl. Yr oedd grym y diwygiad wedi tawelu ac wedi caledu.

Rhoes diwinyddiaeth y ganrif ryw sicrwydd pendant, a chanolbwyntid y sicrwydd yn y capel. Nid yw Wil Bryan ond ysbryd aflonydd dihitio yn cicio dros y trasis. Yr oedd yr hen draddodiad —yr hen gwltwr—yn marw, ac " addysg " ein dyddiau ni heb ei geni. Ni wn i fod Daniel Owen hyd ei fynd i'r Bala wedi dod i gyffyrddiad â'r hen draddodiad. Ni ddwedaf ei ddyfod wedyn. Gan mai y capel a'r seiat oedd y " sensors ", gweinidog yn olygydd a chyhoeddi ei ddwy nofel gyntaf mewn papur enwad, ni ddisgwylid dim ond a oedd yn uniongred o syniad. Medrid chwerthin yn gynnil am ben yr hen saint mewn chwarae, ond chwarae â thân oedd eu pigo i'r byw. Credaf fod yna lawer hen sant yn teimlo mai condemnio ysbryd aflonydd, dihitio y byd ydoedd yn Wil Bryan, ac nid yn rhoi rhyddid i ysbryd llawen y Cymro na laddwyd mohono'n hollol gan y Diwygiad.

Rhagor na hynyna. Yr oedd yn brentis teiliwr, ac fel prentis yn ymwneud â " thwll " a " botwm " a phethau bach—yn ymwneud â'r allanolion, a heb weld fel Carlyle yn Sartor Resartis hwyrach. Medrai ganfod bychandra'r enaid dan y wisg. Yn y siop waith cai fân chwedlau'r dref. Hwyrach mai yma y daeth i adnabod " blaenor " cystal. Nid yr un yw blaenor yng nghornel y set fawr, a phan yn disgwyl pâr o ddillad newydd yn siop y teiliwr, a'r rhai hynny ddim yn barod er bod y Cwrdd Misol drannoeth. Nid oes nemor un ohonom yn sant pan siomir ni neu pan ddisgwylir tâl oddiwrthym. Y mae perigl i nodwydd y teiliwr roi proc i barchusrwydd ac amynedd a mawredd dyn. Rywsut felly, ymwneud â phethau bach—allanolion—gwrando chwedlau ac ystoriau bach—helynt dewis blaenor neu geryddu pechadur a thorri aelod syrthiedig allan—mympwy a siom a charu a damwain a chefnu ar hen ardal—dyna bethau mawr byd Daniel Owen.

Ni ddisgwyliwn i Nofel Fawr, ond yn hytrach " snapshots ", tebig a phan fo dyn yn edrych dros y snapshots a dynnodd ar ei wyliau llynedd.

Ond i ni beidio disgwyl gormod ni siomir mohonom. Ni chredaf y dylasem ddisgwyl ond a fedrem gael. Gyda llaw, dyna yw " athrylith " —dyn na ddisgwyliech ond hyn a hyn oddiwrtho yn

rhoi rhywbeth i chwi na fedr ardal na chyfnod ei roi na'i esbonio'n gyfangwbl o leiaf.

Ganwyd Daniel Owen yn un o res tai Maes-y-dre Wyddgrug yn 1836, can mlynedd yn ôl. Mab ydoedd i Robert a Sarah Owen, "dynion dwad" i'r dre. Gweithiwr yn y gwaith mŵn oedd y tad a chafodd ef a dau o'i feibion eu diwedd yno, a Daniel yn blentyn seithmis, gan adael ei fam yn weddw a gofal dwy ferch a mab arall arni hefyd.

Bu ryw ychydig—ni ddisgwylid llawer dan yr amgylchiadau—yn Ysgol yr Eglwys a'r ysgol Frytanaidd cyn ei brentiso i deiliwr yn siop John Angell Jones, un o fasnachwyr yr Wyddgrug.

Gellir casglu bod awydd cystadlu arno a bod yn ei galon awydd mynd yn bregethwr—dyna awydd llawer calon yng Nghymru slawer dydd.

Pan yn ŵr ieuanc 29 oed cafodd ei dderbyn i'r Bala, ond ni bu yno ond dwy flynedd heb ennill nemor o enw fel ysgolor. Ni wyddom nad treulio ei amser yn darllain y bu, a darllain rhywbeth â mwy o flâs arno na chyfrolau sych diwinyddiaeth.

Priododd ei frawd, gadawodd yntau'r coleg, oherwydd teimlai Daniel fod gofal ei fam a'i chwiorydd arno ef. Cafodd ei hen le yn ôl, ac ymhen ryw ddeng mlynedd dechreuodd ar ei gyfrifoldeb ei hun ond cyn pen dwy flynedd torrodd ei iechyd.

Rhestr o ddamweiniau felly a arweiniodd Daniel Owen i fod yn nofelydd. Onibai i'w frawd briodi, ac onibai fod Daniel yn teimlo fod cyfrifoldeb edrych ar ôl ei fam ar ei ysgwyddau, buasai yn weinidog parchus heb weledigaeth na menter i ddisgrifio blaenor ond gyda'r hwyr yn ei stydi. Onibai i'w iechyd dorri i lawr, buasai edrych ar ôl y fysnes yn gymaint ag y medrai wneud, ac yn lle rhamantu ar bapur, buasai tan orfod rhamantu wrth ei gwsmeriaid. Y mae yn anodd esbonio rhestr o ddamweiniau. Gwell gwneud fel ag yn ei gyfnod ef—peidio cynnig a thewi drwy ddweyd,—

> "Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr
> Yn dwyn ei waith i ben."

Y mae hynyna'n ddiogel o leiaf. Dyna hanes y dyn.

Nid yw neb yn mynd yn nofelydd fel mynd ar wyliau. Y mae yna rywrai wedi arloesi'r ffordd. Gyda llaw, ni wn i am un nofel Gymraeg nad wyf wedi'i darllain, ta waeth. Y mae ffordd bell o Gawrdaf a'r Meudwy Cymreig at Monica, Madam Wen, Gŵr Pen y Bryn, Plasau'r Brenin ac eraill a ddaw i gof. Rhaid cofio nad oedd nemor wedi ei wneud â'r nofel yng Nghymru cyn cyfnod Daniel Owen. Nid wyf yn sicr iddo ddechreu mewn cyfnod da. Yr oedd ceinder yr heniaith wedi'i golli, a broddegau chwydd pregethwrol wedi troi o'r neilldu gynhildeb a phrydferthwch y

Pedair Cainc neu'r Bardd Cwsg. Rhagor na hynyna, buasai Daniel Owen a seintiau'i ddydd wedi marw o arswyd pe darllenasent nofelau yn ymwneud â phroblemau rhyw ein dyddiau ni. Yr oedd arswyd ar Ddaniel i enwi rhan o gorff dyn rhag iddo dreisio gwedduster meddal ei ddydd.

Ni wn i ei batrymau ychwaith. Y mae Morgan Llwyd, onid wyf yn camgofio, yn sôn am lyfr yn rhedeg allan o'i brofiad fel gwe y copyn ohono ef ei hun. Felly y caraf i esbonio Rhys Lewis—Daniel Owen yn gadael i'w hun fynd, a phrofiadau melys a chwerw yn byrlymu ar draws ei gilydd heb iddo ddethol na chynhilo. Artist y snapshot ydyw ac nid artist y cyfanwaith cymhesur.

Dywed D. T. Davies yn y *Llenor*,—

> " Blodeuodd Daniel Owen ar ddiwedd cyfnod pendant yn ein hanes. Y pryd hwnnw, y capel, gan amlaf ydoedd canolbwynt pob ymysgwyd cymdeithasol a gwleidyddol ; eithr cyfnod ar fedr troi ei wyneb tua'r pared ydoedd, a gellir priodoli rhan helaeth o boblogrwydd Daniel Owen, yn ei ddydd, i'r ffaith iddo ganu cân i'w nain. Nid o fwriad annheilwng, bid siwr. Yr oedd yn berffaith ddidwyll, hyd y gwn i."

Y mae yr awgrym â her ynddo. Od ydyw yn wir, nid yw ei ddarluniau yn *true to nature*, chwedl Wil Bryan.

Yng ngeiriau Gwynn Jones, " Yr oedd ei gymeriadau'n fyw, a'i ddisgrifiad o fywyd yn gywir ". Y mae peth gwaith cysoni ar y ddau osodiad. Ni cheisiaf ar hyn o bryd am na bydd yn ddiddorol, hwyrach.

Fe garwn i wybod beth oedd ym meddwl Roger Edwards wrth geisio ganddo ysgrifennu erthyglau a phregethau i'r *Drysorfa*. Tybed y gwelai Roger Edwards ryw adnoddau cudd ynddo ? Tybed ar y llaw arall nad ceisio gan rywun a ga'i a wnai i'w gynorthwyo i lanw tudalennau papur enwad ? Gŵyr llawer un am ganmol " athrylith " rhywun er cael ysgrif arall. . . .

Beth bynnag am hyn, dechreuodd ysgrifennu Y Dreflan i'r Drysorfa. Ni wn i mo'r tâl. Tybed ei fod mor uchel ag ambell wleidydd heddiw, ac iddo ei gael cyn dechreu ysgrifennu ?

Ni ddylasem farnu y Dreflan ond wrth ei goreu. Prentis ydoedd yn cynnig ei law a theimlo'i ffordd o wybod am y rhagfarnau a oedd yn ei erbyn. Nid oedd awyrgylch capel a seiat a chrefydd y dydd yn ffafriol i nofel. Rhaid a fu arno feichio ei waith â rhyw ddarnau o bregethau er tawelu llid Anghydffurfiaeth gul a phendant heb olchi'i llygaid yng ngolau'r wawr. Y mae Rhys Lewis yn wahanol. Nid yw ond hunan-gofiant neu yn hytrach ideal Daniel Owen wedi'i bortreadu. Ni welais i Ddaniel Owen erioed. Ond y mae gennyf ddarlun ohono yn fy meddwl. Bob tro y meddyliaf amdano ni fedraf lai na chofio am y Parch. D. Evans, Cwmiago—yr un tawelwch breuddwydiol, a'r un hiwmor iach, ie, a'r un

direidi yng nghil y llygad. Dyna'r darlun y sydd gennyf o Ddaniel Owen, ac yn Rhys Lewis fe geir y darlun hwn. . . .

Y mae blynyddoedd wedi mynd er i mi ddarllain gyntaf Rhys Lewis. Y mae yn agos ugain mlynedd er i mi godi cwmni ym Mrondeifi i actio'r ddrama. Y mae rhyw afael ganddi ynof. Nid teg hwyrach ei chymryd fel nofel a'i barnu wrth ganonau'r critig, ond y mae yma ambell ddarlun byw wedi'i dynnu a llaw gynnil a gofalus. Ni fedr y neb a'i ddarllenodd anghofio rhai darluniau, megis Siars Wil Bryan i Rys Lewis, Wil Bryan a'r cloc, address Tomos Bartley i'r stiwdents yn y Bala a rhai tebig.

Medr brawddeg neu baragraff ail greu'r awyrgylch.

Darlun Wil Bryan o'r seiat :

" Wel i ti, seiat ydi lot o bobl dda yn meddwl 'u bod nhw yn ddrwg, ac yn cyfarfod 'u gilydd bob nos Fawrth i feio ac i redeg 'u hunain i lawr ".

Ni chredaf fi fod seiat ar nos Lun na nos Fawrth yn awr o achos y mart.

Tomos Bartley yn diffinio crefydd :

" Tw bi shwâr . . . Credu yr ydw i, wel di, Bob, os byddwn ni'n onest, a thalu'r ffordd, a byw rhwbeth agos i'n lle, y byddwn ni gyd yn gadwedig."

Tomos Bartley yn y seiat yn esbonio Crist :

" Thomas Bartley, wnewch chwi ddyweyd wrtha i, beth oedd yn galw am i Iesu Grist farw trosom ?

" Wel, cyn belled ag yr ydw i yn dâllt, 'doedd dim ar affeth hon y ddaear yn galw am iddo farw droston i ond fod o'i hun yn leicio gneyd hyny."

Chwarae teg i'r hen Bartley. Hwyrach ei fod yn nes i'w le na llawer o ddiwinyddion wedi'r cyfan i gyd.

Darlun Bob o ddynion Duw :

" Y mae dynion yn bod, ag mai eu hamcan penaf ydyw cael gwybod y gwirionedd gan nad o ba gyfeiriad y daw ; dynion sydd yn wastadol yn ymbalfalu am Dduw y gwirionedd, ac a wyddant beth ydyw colli nosweithiau o gysgu mewn disgwyliad poenus ac awyddus am y goleuni " . . .

Darlun Wil o grefydd ei dad, a chrefydd llawer gydag ef :

" Fydd o byth yn edrach ar y Beibl ond am ryw ddau fynyd ar y Sul cyn mynd i'r ysgol. A mae o gystal a newydd rwan—y Beibl gafodd o yn bresant pan briododd o. Nid run fath a Bibl dy fam oedd yn yfflon ulw. Ond yr ydw i'n mawr gredu bydae'r daybook a'r ledger yn mynd ar dân heno y medre'r hen law eu copio nhw'n gorect o'i go bore fory. It's a fact, Sir. Wyt ti'n meddwl na wn i ddim be ydi crefydd ? Mae o yn rhoi pedwar swllt yn y mis dros y mam, a phedwar swllt drosto fo'i hun, a swllt drosta inne ar lyfr y seiat yn regular. Ond wyt ti'n

meddwl y creda i fod *credit* yn cael ei roi i ni yn y LEDGER UP ABOVE."

Hawdd a fuasai dyfynnu llawer o bethau miniog, ond nid oes galw. Ysgrifennodd Gwen Thomas ac Enoc Huws, wedi Rhys Lewis. Y mae rhywrai fel finnau wedi'u darllain i gyd, a rhyw flas hyfryd yn aros ar dudalen adgof. Cymeriad cryf yw Bob, ac yr oedd gan Gwili, ac yntau yn ei fedd weithian, ddarlith dda ar Bob. Y mae Wil Bryan yn dod fel haul drwy gawad, a cheir yn Mari Lewis gryfder a gwendid cymeriad slawer dydd. Ni fedraf i beidio caru Tomos a Barbara Bartley—cymeriadau syml a diragrith—rhyw optimists diddysg yn medru ymddiried yn Nuw.

Y mae wedi darlunio yn weddol ofalus fywyd ei oes a'i ddydd. Bywyd cul ac arwynebol hwyrach ydoedd, heb ddim yn ei gyffroi ond crefydd y capel, a llanw hwnnw wedi tawelu a threio.

Bu farw Daniel Owen yn ŵr trigain namyn un fel meudwy, wedi gorffen Enoc Huws a Gwen Thomas, yn 1890.

Caiff arall ei fesur a'i bwyso, a rhoi "label" arno.

Ni chredaf y mynn yr YMOFYNNYDD wneuthur hynny, ond bydd raid gwneud llawer o chwynnu a throi damcaniaethau hen dros y bwrdd cyn rhoi ei le i Ddaniel Owen gan ei ddangos fel yr oedd—gŵr yn medru tynnu snapshot o fywyd y gwyddai ef amdano, ac nid nofelau mohonynt ond albums lle cedwir pob math ar snapshot heb ddethol na dewis.

Ni rof i ond paragraff o eiddo Iorwerth Williams er dangos barn Cymru heddiw amdano, ond odid.

> "A chymryd nofelau Daniel Owen fel cyfanwaith, gellir dweud mai eu prif nodwedd yw hiwmor caredig. Pan oedd Cymru yn edrych ar bob agwedd ar fywyd fel rhywbeth anodd, dyrys a phwysig, yr oedd un gŵr nad anghofiodd ei hapusrwydd a'i ddoniolwch. Ac wrth gofio hynny ni allodd beidio a gweled ei dristwch hefyd, ond cofiodd ef heb sentimentaleiddiwch llawer o'i gyfoeswyr. Ac wrth fyned heibio ni allodd beidio a gwenu wrth weled cynifer o bobl yn ceisio eu twyllo eu hunain a'u cymdegion, a rhoi aml bigiad i'w parchusrwydd trwy enau Wil Bryan, genau oedd yn llefaru aml farn Daniel Owen ei hun."

N. a N.

Urdd y Benywod.

DAETH nifer dda o gynrychiolwyr o wahanol ganghennau yr Urdd ynghyd i'w cyfarfod yng Nghapelygroes brynhawn Sadwrn, yr ail o Fai. Awd drwy'r gwasanaeth defosiynol gan Mrs. Jones, Blaencwrt.

Llywyddwyd gan Miss Evans, Ffynonfair. Estynnodd groesaw cynnes i'r aelodau ac anogodd hwynt i fod yn ffyddlon. Mynegodd ei phleser o weled y gweinidogion yn bresennol. Yr oedd eu cefnogaeth hwy mor angenrheidiol i lwyddiant y mudiad.

Darllenwyd llythyron yn mynegu eu gofid am fethu bod yn bresennol oddiwrth Mrs. S. Evans Bowen, Mrs. J. Park Davies, a Mrs. D. Jones, Dolgerdd.

Yr oedd adroddiadau y gwahanol ganghennau yn wir galonogol ac yn amlygu fod gwaith gwerthfawr a diddorol wedi ei wneyd yn nhymor y gaeaf.

Ar ôl ymdrafodaeth faith penderfynwyd y bydd y wibdaith flynyddol i Ogledd Cymru eleni, ar yr ugeinfed o Fehefin.

Cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Gweithiol yr Urdd yng Nghaeronnen ar y 26ain o Fedi, a bydd y Cyfarfod Blynyddol yn Alltyblaca ar yr 28ain o Dachwedd.

Apwyntiwyd Mrs. Jones, Y Bryn, i fod yn gynrychiolydd blaenaf i gyfarfodydd blynyddol y *General Assembly* yn Llundain. Edrychir ymlaen gyda diddordeb am yr adroddiad o'r cyfarfodydd hyn.

Darllenwyd llythyr oddiwrth y Parch. E. O. Jenkins yn pwysleisio y ffaith mai ychydig o'r eglwysi oedd wedi gwneyd y cyfraniadau angenrheidiol tuag at Gronfa y Myfyrwyr. Trefnwyd i gopi o'r llythyr i gael ei anfon i ysgrifennydd pob cangen, ac i bob cangen drafod y mater yn drwyadl.

Mewn ateb i wahoddiad oddiwrth gyfeillion yn Rhydyparc trefnwyd i'r Urdd gynnal gwasanaeth yno ar brynhawn dydd Sul, Mehefin y 7fed. Gwahoddir y Prifathro J. Park Davies i bregethu a Mr. George Eyre Evans i roddi anerchiad ar hanes y capel.

Estynwyd llongyfarchiadau gwresog i Mrs. Davies (gynt Miss Mary Williams) ysgrifennydd egniol yr Urdd, ar ei phriodas.

Mwynhawyd yn fawr y te a baratowyd yn yr ysgoldy gan aelodau cangen Capelygroes.

K.J.

Arholiad yr Ysgol Sul, 1936.

Bach iawn oedd nifer yr ymgeiswyr eleni,—14 yn Safon II ac un yn Safon III. Ymddengys nad yw yn werth parhau a'r arholiad fel yma. Mae angen am ail ystyried ac ad-drefnu pethau beth bynnag.

Ni ellir dweyd yn onest fod gwaith yr ymgeiswyr yn Safon II o radd uchel eleni. Mae dirywiad amlwg yn y sillebu, ac, ag eithrio dau neu dri, yr oedd yr atebion yn hynod o gwta. Ynglŷn â'r emyn ni allwn lai na dyfod i'r casgliad nad oedd y mwyafrif o'r plant wedi cael cyfle i ddarllen yr emyn yn Saesneg. Yr oeddent wedi ei ddysgu drwy'r glust heb fedru deall beth oeddent yn ddysgu. Profid hyn gan y sillebu. Er enghraifft yr oedd dau neu dri wedi ysgrifennu "*soncet field*" yn lle "*sanctified*".

Yr oedd gwaith Hannah Mary Jones, Ysgol y Graig a Peggy Davies, Brondeifi, gryn lawer yn well nag eiddo'r gweddill. Mae Hannah Mary Jones yn llawn deilyngu y bathodyn a Peggy Davies yn wir agos ati.

Oherwydd rhyw amryfusedd ni aeth neb i arholi plant Capelybryn. Derbyniais draethawd ar "Fywyd a gwaith Syr John Bowring" oddiwrth Marie Thelma Evans o ysgol Capelybryn. Mae yn draethawd neillduol o dda. Am resymau amlwg ni allaf ei ystyried yn y gystadleuaeth am y bathodyn, ond dylid rhoddi tystysgrif Dosbarth I i'r ymgeisydd.

Gofynwyd i blant Safon III i ysgrifennu llythyr at gyfaill mewn gwlad dramor gan ddweyd wrtho hanes bywyd a dysgeidiaeth yr Iesu. Llwyddodd yr un ymgeisydd i ddweyd ei stori yn weddol o lawn a threfnus. Anurddir y gwaith gan lawer iawn o wallau mewn sillebu a threiglo. Hefyd nid wyf yn hoffi brawddegau fel hyn oddiwrth blentyn: "Y byd drwg annuwiol hwn", "hen ddyddiau drwg yr Israeliaid". Mae y llythyr, fodd bynnag, yn ddigon cynhwysfawr ac yn dangos gwybodaeth ddigon llawn o'r maes i deilyngu y bathodyn.

T. L. Jones.

SAFON II.

DOSBARTH I.—*Anrhydedd*—Hannah Mary Jones, Ysgol y Graig, (*Bathodyn*); Peggy Davies, Brondeifi.

DOSBARTH I. Brondeifi: Evan Lloyd Davies. Capelybryn: Mary Thelma Evans. Graig: Cerdyn Davies. Pantydefaid: Annie Mary Evans, Mary Hannah Davies, Jenkin Evans.

DOSBARTH II. Brondeifi: Nora Evans. Graig: Hannah Eirwen Davies. Llwynrhydowen: Anne Mary Jones, Myra Parry. Pantydefaid: Harriet Edith Heap, Nancy Lloyd Davies.

SAFON III.

Bathodyn—Dannie Jones, Ysgol y Graig.

SAFON I (dan 10 oed).

CAPEL-Y-BRYN: Myra Anita Evans, Glennis Davies, Betty Morgans, Lorna Morgans, Gwen Jenkins, Timothy Davies, Beryl Jones a Hannah Jane Evans.

CAPEL-Y-CWM: Hannah Mary Thomas a Elizabeth Mary Jenkins.

CAPEL-Y-FADFA: Artie Jones, Sally Jones, Megan Jones.

BRONDEIFI: Aneurin Jones, Dennis Williams, Eileen Jones, Doreen Davies, Gwladys Ann Davies, Gwyneth Davies a Rowena Davies.

CAPEL-Y-GROES: Joshua Aeron Davies, Esther Ann Davies a Jenkin Ivor Jones.

GRAIG, LLANDYSUL: Dilys Eleanor Davies, Eirwen Evans, Mair Williams, Gwenda Price a Ray Davies.

GRAIG, TREBANOS: John Bevan, Mina Davies, Ray Hartnell, Donald Phillips, Thelma Phillips, Eirlys Thomas.

LLWYNRHYDOWEN: Glenarth Jones, John Jones, Esther Hannah Jones, Sarah Gwyneth Williams, Betty Crabbe, May Crabbe.

PANTYDEFAID: Evan Tom Glanville Jones, Catherine Mary Davies, Annie Gwendoline Davies, Sarah Margaret Evans, Mary Elizabeth Jones.

RHYDYGWIN: Margaret Jane Jones, Lety Bowen, Mary Eiddwen Evans, Margaret Eunice Davies, Hannah Jane Jones, David John Jones.

SAFON II (Ar Lafar).

CAPEL-Y-CWM: Gertie Hales.

CAPEL-Y-FADFA: Ena Jones, Annie Davies.

CILIAU: Joan Hughes.

LLWYNRHYDOWEN: Margaret M. Evans, John David Jones, Evan John Williams, Evan D. Jones, Thomas Elvet Parry.

RHYDYGWIN: Ernest Davies, Charles Jones, Letty Bowen, Jennie Ceridwen Davies, David John Evans.

SAFON III (Ar Lafar). CILIAU: Bessie Hughes.

Priodasau.

YN Eglwys All Saints, Glasbury-on-Wye, ar Ebrill 4, unwyd mewn priodas GWILYM OWEN, unig fab y diweddar Barch. T. Arthur Thomas a Mrs. Thomas, Llandysul, a LOUISE, merch Mr. a Mrs. Robert J. Fernie, Glasbury-on-Wye. Ficer y Plwyf a'r Parch. E. Gwilym Evans, B.A., Llandysul, yn gwasanaethu. Hir oes, llawenydd a llwyddiant fo'n dilyn.

EBRILL 11 yn Eglwys Brondeifi gan y Parch. T. O. Williams, M.A. gyda chynhorthwy Gweinidog eglwys Brynteg unwyd mewn glân briodas Miss MINNIE WILLIAMS (Nyrs), Postgwyn, Cwmanne, Llanbedr a Mr. G. OWEN REES, Macpela, Rhuddlan Teifi, Llanybyther. Boed eu hoes ar ei hyd yn llawn o gariad.

EBRILL 28 yn Rhydygwin, Miss MARY JANE WILLIAMS, unig ferch y Parch. Lewis Williams a Mrs. Williams, Y Manse, Felinfach a Mr. THOMAS DAVIES, M.R.C.V.S., Clyttau, Cribyn. Gwasanaethwyd gan y Parchn. E. O. Jenkins a D. Evans, a'r cofrestrydd Mr. E. Lloyd.

Ebrill 29 yn Eglwys Sant Pedr, Llanbedr, unwyd mewn glân briodas y Parch. T. E. DAVIES, Minor Canon, Tyddewi â Miss ELUNED DAVIES, unig ferch Mr. a Mrs. David Davies, Arfon, New Street, Llanbedr, ac hen organyddes Brondeifi. Boed eu bywyd yn wyn a dedwydd.

Marwgofion.

Ionawr 28, bu farw Evan Thomas, 12, Philog Road, Whitchurch, Caerdydd. Un o Bwlchyfadfa oedd Evan Thomas; ganwyd ef yn Cwmcysgodwyn, Cwmsgydwyn yw'r enw arferol, ond cafodd ei fagu yn Waunfach, lle y saif Awelfa yn awr). Aelwyd grefyddol oedd aelwyd Waunfach ac yno yr ymdyrai plant a phobl ieuainc yr ardal yn ystod hwyrnosau y gaeaf cyn yr ysgolganau. Ymaelododd Evan yn Bwlchyfadfa yn ieuanc ond gorfu iddo, fel plant yn gyffredin, ymadael yn gynnar a'i ardal, ac aeth i Lanybydder i ddysgu galwedigaeth y werthfa wlân. Tra yno mynychai gapel Allttyblaca yn rheolaidd. Ar ôl bod yno ddwy flynedd aeth i ardal Drefach lle y bu am amryw flynyddoedd. Mynychai gapeli Penrhiw a Phanteg pan y caffai gyfle a phan y cynhelid gwasanaethau yno. Wedi hyn aeth i ardal Cwrtnewydd ac ymaelododd yng Nghapel-y-Bryn. Bu yn anffodus yno a gorfu iddo chwilio am faes newydd. Daeth i Gaerdydd ac am y gweddill o'i oes bu'n teithio fel cynrychiolydd masnachwyr paent. Yng Nghaerdydd bu yn aelod am flynyddoedd yn West Grove ac hyd y diwedd yr oedd ei ddiddordeb yn fawr yn yr enwad. Nid oedd byth heb reswm am y ffydd oedd ynddo ac yr oedd yn ymadroddwr hyawdl. Byr fu ei gystudd olaf. Gedy weddw a mab a dwy ferch mewn gofid ar ei ôl. Claddwyd ei weddillion yng Nghladdfa Gyhoeddus Pantmawr, ger Caerdydd ar y dydd olaf o Ionawr. Gwasanaethwyd gan y Parch. T. L. Jones, Caerdydd.

Mawrth 20, yn 77 mlwydd oed, bu farw Mrs. ANNA WILLIAMS, gweddw y diweddar William Hefin Williams, Llanbedr, yn Rheithordy Bodffordd Hen Eglwys, Sir Fôn. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da ers tro ac oherwydd nychdod a dallineb wedi gorfod rhoi ei chartref bach i fyny yn Llanbedr gan fynd i fyw bywyd yr alltud gyda'i merch ym Môn. Gwraig ddiwyd a darbodus y bu, selog dros ei chred a'i chapel, a thrist fydd meddwl am Frondeifi heb y ddau anwylddyn hyn. Claddwyd ym mynwent Brondeifi a gwasanaethwyd yn yr angladd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd ddwy ferch a mab i alaru ar ei hôl.

Ebrill 17, yn 75 mlwydd oed, bu farw ELLEN DAVIES, Brynhyfryd, Llanybyther, ond yn fwy adnabyddus o lawer fel merch Rhydderchlwyd ym mhlwyf Cellan ac y mae teulu Rhydderchlwyd wedi bod ynghlwm â Chaeronnen ar hyd y blynyddoedd. Nid oedd ein chwaer wedi mwynhau iechyd cryf ers blynyddoedd lawer ond cafodd bob gofal a help ar law ei chwaer a fu fel mam iddi. Y mae hithau weithian yn unig—yr olaf o hen deulu Rhydderchlwyd. Benyw dawel a heddychlon ydoedd—a chalon garedig yn ei mynwes. Yr oedd wedi ei chaethiwo i'r tŷ er's tro, ac i'w gwely am fisoedd bob blwyddyn. Claddwyd ym Macpela'r teulu yng Nghaeronnen. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parchn. Mr. Griffiths a S. Evans Bowen ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. gyda chynorthwy y Parch. Lewis Williams. Heddwch i'w llwch yn naear gysegredig Caeronnen ac heb fod nepell o Rydderchlwyd.

Ebrill 28, yn 74 mlwydd oed, bu farw DAVID JONES, Teifi View, Cwmanne, ond yn fwy adnabyddus i'w lu cyfeillion fel David Jones, Coedmor Fawr. Gŵr a'i fryd gyda'i fferm a'i anifeiliaid ydoedd—yn gwybod eu gwerth—yn caru marchnata—ac yn caru teithio bryn a dôl. Gŵr gonest ac unplyg ydoedd—caredig a chymwynasgar. Hannai o hen deulu parchus iawn ac ni wnaeth yntau ddim i lychwino'r hen enw. Crefydd yn ei dillad gwaith oedd ei grefydd

a chedwid ef o'r capel gan na chlywai yn dda, ond carai Frondeifi ac yn naear y fynwent y mae'n huno'i hun olaf. Cafodd gynhebrwng parchus a lluosog a gwasanaethwyd yn yr angladd gan ei weinidog, y Parch. T. O. Williams, M.A. Gadawodd ddwy chwaer—un yn unig ar yr aelwyd gydag ef—heblaw nithod a neiaint i alaru ar ôl un a oedd yn gefn iddynt. Gobeithio y caiff y ddwy chwaer nerth Duw dan y groes.

Ebrill 21, yn 63 mlwydd oed, bu farw MARY HANNAH DAVIES, annwyl briod Mr. Evan Davies, Maesyrhedyn, Graig Road, Trebanos. Ers amser, nid oedd ei hiechyd a ddymunid, ac yn ddiweddar gorfu iddi fynd tan driniaeth feddygol yn Ysbyty Abertawe. Er fod argoelion gwellhad yn amlwg, dihoeni a wnaeth, ac yno y bu farw. Dynes gartrefol ydoedd Mrs. Davies, ac yr oedd ganddi allu neulltuol i wneud cyfeillion. Ar yr aelwyd fel mam y datguddiai hi ei rhagoriaethau. Yno y mae bwlch yn aros. Trist ydoedd gweled ddydd ei chynhebrwng chwech o'i meibion yn cario'r arch o'r tŷ. Claddwyd hi wrth Gellionnen y dydd Sadwrn canlynol, y Parchn. D. John a J. D. Jones yn gwasanaethu. Yn galaru ar ei hôl y mae ei phriod a'i phlant a llawer iawn o gysylltiadau a ffrindiau.

Os dwfn archoll oedd ei cholli—nid oes
Ond ei chorff yn edwi ;
Efo Ion yn fyw heini,
Mewn da hedd mae'i henaid hi. Llanorfab.

Ebrill 28, yn 66 oed, bu farw ELIZABETH HUGHES, annwyl briod Daniel Hughes, Fronfallen, Cribyn, gan adael priod, chwech o blant, un chwaer, nifer luosog o wyrion, mewn hiraeth dwfn ar ei hôl. Ni bu ei hiechyd yn gryf ers rhai blynyddoedd, a bu dan driniaeth feddygol yng Nghlafdy Aberystwyth. Wedi iddi fynd trwy'r driniaeth, gwellhaodd yn gyflym, a thybid ei bod wedi cael llwyr adferiad i'w hiechyd arferol. Ychydig fisoedd yn ôl, modd bynnag, dechreuodd waethygu ; ac ar ôl cystudd caled o amryw fisoedd, bu farw fel y nodwyd. Merch ydoedd i'r diweddar James Evans (Shams), Cribyn, a oedd adnabyddus i gylch eang iawn yn ei ddydd. Benyw a gair da iddi gan bawb a'i hadnabyddai ydoedd ; bu'n briod a mam ragorol, gofalus am ei chartref ; a gwelir ei lle yn wag iawn gan ei phriod a'i phlant. Ymaelododd yng Nghribyn yn ieuanc iawn, a bu hi (tra y gallodd) a'i theulu yn hynod o ffyddlon. Y mae'r hen genhedlaeth yn mynd o un i un gan adael lle gwag ar eu hôl nad yw'n bosibl ei lanw. Dydd Sadwrn dilynol, hebryngwyd ei gweddillion i fynwent Capel Cribyn, y cynhebrwng yn gyfyngedig i'r cymdogion agosaf. Gwasanaethwyd ar yr achlysur gan y Parch. D. Evans.

Mai 3, yn 70 mlwydd oed, bu farw Mrs. DINAH THOMAS, annwyl briod Mr. John Thomas, Tynffordd, Llanwenog, wedi cystudd caled. Nid oedd wedi mwynhau iechyd da yn ddiweddar ond ni freuddwydiodd neb fod y diwedd mor agos. Gwraig ddiwyd, gwraig dda ydoedd—gweithiodd yn fore a chadwodd wrth ei gwaith i'r diwedd. Yr oedd rhywbeth yn garedig a siriol ynddi ac iddi air da gan ei chydnabod a'i chyfeillion. Yr own i yn ei hadnabod ers deugain mlynedd a charwn glonc gyda hi a'i chwmni. Hannai o deulu Undodaidd a chadwodd ei ffydd yn loyw i'r diwedd. Claddwyd ym mynwent Capel-y-Groes. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. T. L. Jones, Caerdydd (ei nai) ; pregethwyd yn y Capel gan y Parch. T. O. Williams, M.A. a gorffenwyd y gwasanaeth ar lan y bedd gan y Parch. Lewis Williams. Gadawodd briod, brawd a chwaer heblaw llu mawr o berthynasau a chydnabod i alaru ar ei hôl. Y mae hi wedi blaenu—a ninnau'n dilyn ar ei hôl.

Darbodus wraig rasusol,—i'w phriod
Hoff rhoes law ddefnyddiol ;
Trwy gaddug lwybr tragwyddol
Os yr aeth, mae'i gwers ar ôl. Cribin Bach.

Dydd Mawrth y 5ed o Fai, yn un mis ar ddeg oed, yn nhŷ ei ddatcu a'i famgu yn Fronddu, Llanwenog, bu farw Thomas John, baban bach Mr. a Mrs. Thomas Wallis Lloyd, Blaenwaun-isaf. Yr oedd yn blentyn prydferth iachus hyd nes ei gystuddio gan y dwymyn goch rhyw bum mis yn ôl, ac er pob gobaith a thriniaeth gariadus, huno wnaeth. Claddwyd ei gorff bychan ym mynwent Capel-y-Bryn, y dydd Gwener dilynol. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Rhyddderch, Llandysul, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Gweinidog.

Mai 6, bu farw RACHEL MARY (RAY), annwyl ac unig ferch David a Hannah Rees, Tynewydd, plwyf Llanbedr, yn 17 oed, ar ôl cystudd byr ond caled iawn. Y dydd Llun dilynol daeth nifer anarferol luosog ynghyd, yn enwedig o bobl ieuainc, i hebrwng a oedd farwol o honi i orffwys ym mynwent Capelygroes, fel arwydd o'u parch iddi ac o'u cydymdeimlad â'r teulu. Nid rhyfedd hyn, oblegid yr oedd iddi gylch eang iawn o gyfeillion mynwesol. Perthynai iddi elfennau cymeriad mcr ddymunol a enillai bawb a ddeuai i adnabyddiaeth agos o honi i'w charu. Rhoddai ei holl fryd ar bethau da—ni chai un meddwl na theimlad drwg ddod yn agos i'w chalon. O gylch yr achos yng Nghapelygroes yr oedd llinynnau tyneraf a mwyaf cysegredig ei serch wedi'u gwau mor dynn ac annatodadwy fel na fedrai dim ond marw eu torri. Hyd yr aeth i Lanbedr tua blwyddyn yn ôl, bu'n rhyfeddol o ffyddlon yn yr Ysgol Sul a'r cwrdd ; a gwnai ddefnydd ardderchog o'r addysg a gai ynddynt. Praw o hyn yw'r ffaith iddi ennill Bathodyn Arholiad yr Ysgolion Sul dair blynedd yn olynol. Wedi iddi symud i Lanbedr, bu'r un mor ffyddlon ym Mrondeifi ; ac yno hefyd ennill barch y gweinidog a'r gynulleidfa fel y tystiolaethwyd gan y nifer a ddaeth i'w chynhebrwng, yn ogystal a'r bleth-dorch i osod ar ei bedd. Mawr iawn yw'r golled i'n heglwysi a achosir gan farw pobl ieuainc fel hi. Gwag yw'r eglwys a'r gymdogaeth o'i cholli ; eithr llawer iawn gwacach yw'r aelwyd yn Nhynewydd. Caffed y tad a'r fam nerth i ddwyn y golled a'u hiraeth. Yn y tŷ darllenwyd gan y Parch. D. Evans, a gweddiwyd yn dyner iawn gan y Parch. Mr. Thomas, Gwernogle. Yn y capel gwasanaethwyd gan y Parch. D. Evans, a draddododd anerchiad byr o werthfawrogiad o honi, sylfaenedig ar y geiriau—" Cu iawn fuost gennyf ". Gweddiwyd yn dyner a chysurlawn ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr. Gwasanaethwyd wrth yr offeryn gan Miss Jenkins, Blaenwaun-ganol, a chwaraeodd y " Dead March " ar y terfyn. Derbyniwyd nifer luosog o bleth-dyrch, am y rhai y dymuna'r teulu ddiolch yn wresog, yn ogystal ag am yr amlygiadau lluosog o gydymdeimlad â hwy yn eu profedigaeth chwerw.

Ein lili yn ôl a alwodd—ar frys,
Gorau frawd adawodd,
Dinam dad a mam 'run modd
A ninnau'n brudd pan hunodd.

Enillodd fri drwy'i gallu—o'i hyfwyn
" Faes Llafur " ; ond cysgu
Ddaeth, a'i hawliodd o'i theulu,
I'r un dlos 'roedd ffrindiau lu.

Cribin Bach.

Nos Sul, y 10fed o Fai, yn 82 oed, bu farw EVAN EVANS, Ty'r Capel, Alltyplaca. Yr oedd wedi bod yn eiddil ers tua dwy flynedd, ond daeth y diwedd yn lled sydyn. Yn ystod yr wythnos ddiweddaf o'i fywyd yr oedd yn eglur ei fod yn ymadael yn gyflym. Cafodd gystudd eithriadol o esmwyth. Am flynyddau tra yn amaethwr yn Ffinnant-ganol a Ffynnondyfras gwasanaethodd y capel fel torrwr beddau, ac yn ystod y blynyddau diweddaf yr oedd yn gofalu am y capel hefyd. Adnabyddid ef fel gweithiwr cymwys a didwyll. Edmygid yn fawr ei ffyddlondeb a'i sêl i'r achos, lle yr oedd yn ddiacon. Gadawodd wyres, yr hon oedd yn byw gydag ef, un ferch, a phedwar mab a nifer o wyrion mewn galar ar ei ôl. Claddwyd y dydd Iau dilynol yng Ngalltyplaca. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. D. Jones, Noddfa, Llanbedr, yn y capel gan y Parch. Lewis Williams a'r Gweinidog, ac ar lan y bedd gan y Parch. T. O. Williams, M.A.

Mai 15, CATHERINE EVANS (Cate), gweddw y diweddar Enoc Evans, Penbryn, Gwarllwynoidos, yn 76 oed. Bu ei phriod farw tua 33 o flynyddoedd yn ôl, a chafodd hithau ei gadael a thyaid o blant i'w dwyn i fyny. Ymhen

ychydig flynyddoedd wedi ei golli ef symudodd i Pledrog ac wedi hynny i Penrhiw, Talgarreg, ac yn y lle olaf y bu farw ar ôl dros chwe mlynedd o orwedd yn y gwely yn gystuddiol. Profodd ei hun yn fam ragorol ; ei phwynt mawr oedd cadw aelwyd glyd, porthi, dilladu ac hyfforddi ei phlant ac ymroi byw yn dda. Ar waethaf llawer o anhawsderau llwyddodd yn rhyfeddol yn ei phwrpas. Hyd yn oed pan wedi ei chyfyngu i'w gwely yr oedd ei hymgom yn wir flasus—cawsom lawer i hanner awr hyfryd yn ei chwmni. Nid achwynai ar ei chyflwr a chadwodd ei ffydd yn y " Bod Mawr " yn ddiysgog hyd y diwedd. Ym mlynyddoedd cynnar ei bywyd mynychai'r gwasanaeth yn gyson ym Mhantydefaid ac wedi symud i ardal Talgarreg presenolai ei hun yng Nghapel-y-Fadfa tra caniataodd iechyd. Bu ei dwy ferch ag oedd gartref yn dirion iawn o honi yn ei chystudd. Claddwyd y Mercher dilynol ym Mhantydefaid. Gwasanaethwyd yn y tŷ a phregethwyd yn y capel gan y Parch. E. O. Jenkins. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., D. A. Williams (A), a B. Morris (A).

Nodion yr Eglwysi.

BRONDEIFI. Anrhegwyd Miss Eluned Davies, weithian Mrs. T. Edison Davies gan gynulleidfa Brondeifi â chloc hardd am ei gwasanaeth fel organyddes am flynyddoedd i'r eglwys. Dymuna ei *hen* gyfeillion iddi amser mor ddedwydd gyda'i chyfeillion *newydd*.

CAPEL-Y-BRYN—URDD Y BENYWOD. Cynhaliwyd cwrdd olaf y tymor nos Fercher, Ebrill 22ain. Daeth nifer dda o'r aelodau ynghyd. Y rhan bennaf o'r cwrdd oedd y gyfeillach wrth y ford. Rhodd Mrs. Jones, Gwarnant a Mrs. Williams, Meinigwynion-bach oedd y te a diolchwyd yn gynnes iddynt gan y Gweinidog ar ran yr Urdd am eu caredigrwydd. Siaradodd y Llywydd, sef Miss Jones, Crosshands eiriau pwrpasol. Diolchodd am bob cynorthwy a gafodd yn ystod y tymor a dywedodd eu bod i gyd yn edrych ymlaen yn obeithiol i'r tymor nesaf. Cafwyd cân gan Marian Davies ac adroddiad gan Beryl Jones. Terfynwyd y cwrdd drwy ganu a gweddi.

ABERYSTWYTH. Daeth tymor gweinidogaeth y Parch. J. Marles Thomas, M.A. yma i ben ddiwedd Ebrill, a thraddododd ei bregeth ymadawol yr hwyr Sul olaf yn y mis. 'Roedd y capel bach yn orlawn ar yr achlysur a rhai garai fod yn bresennol yn methu bod. Y nos Fawrth ganlynol daeth aelodau'r gynulleidfa ynghyd yn gryno i sosial a gynhaliwyd yn y capel i ffarwelio ag ef ac i ddymuno Duw yn rhwydd iddo yn ei weinidogaeth newydd yng Nghefncoed-y-Cymer. Cymerwyd mantais o'r achlysur i gyflwyno iddo ddwy anrheg fechan fel arwydd o'n parch a'n serch tuag ato, a datganwyd ein teimladau gan amryw o'r aelodau. Y noson cynt cafodd anrheg arall gan ieuenctyd cangen leol Undeb Cynghrair y Cenhedloedd, yng ngwaith yr hon y cymerodd ran flaenllaw.

URDD Y BENYWOD CAERONNEN. Cawsom dymor hapus yng Nghaeronnen eleni. Er nad yw ein nifer yn fawr, eto yr ym wedi cwrdd bob bythefnos drwy'r tymor. Ni chawsom gynifer o arddangosiadau a rhai canghennau hwyrach, eto cawsom arddangosiadau mewn coginio gan Mrs. T. O. Williams ; needleweaving gan Miss Woosnam, heblaw gwneud matiau a llawer peth defnyddiol. Yr ym wedi ceisio gwneud ein goreu ac o'n ceiniogau prin yr ym am gynorthwyo talu am stove i wresogi'r capel. Yr ysgrifenyddes yw Miss Dinah Davies, C.M. a'r drysoryddes yw Miss Sallie Davies, B.A., a'r llywydd yw Mrs. T. O. Williams. Y mae pob help yn cyfrif ar adeg pan mae cymaint o ddiflasdod ymhobman.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. 7/6 net (by post 8/-). Leather bound, gilt edges, 10/6 (by post 11/-). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price 1/- (by post 1/1). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price 1/- (by post 1/1). Cloth, 2/- (by post 2/2).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price 6d. (by post 7d).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. 1/- each (by post 1/1).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.

Cecil Jones, F.B.O.A., F.S.M.C., F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street
ABERYSTWYTH

TELEPHONE No. 209.